Glynllifon

Universities UK

YOUR RIGHT TO A QUALITY HOME

THE ACCOMMODATION CODE STUDENT

# Llawlyfr Hostel Glynllifon




gllm.ac.uk

# Cyflwyniad

**Mae'r llyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth am fyw yn yr hostel yng Nglynllifon.**

Rydym yn cydnabod bod darparu llety o ansawdd da yn ganolog er mwyn eich galluogi i ddysgu, a dyma pam mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i god  ymarfer UUK ar gyfer rheoli llety myfyrwyr. Mae copi o ganllaw cod ymarfer UUK i fyfyrwyr ar gael ar lein: www.accommodationcode.ac.uk/

Darllenwch drwy'r llawlyfr yn ofalus a gobeithio y bydd yn rhoi cipolwg i chi o gyfnod pleserus i ddod fel myfyriwr yng Nglynllifon. Os oes gennych chi syniad ar sut gellir gwella'r gwasanaeth, anfonwch e-bost at y cyfeiriad isod, fel arall, peidiwch ag oedi i gysylltu ag unrhyw un o staff yr hostel os oes angen cymorth arnoch gydag unrhyw beth.

---

**Gallwch gysylltu â ni drwy...**

**Ffôn** (yn ystod oriau'r coleg) - **01286 830261**
**Ffôn** (y tu allan i oriau'r coleg) - **01286 830261 ext 8525**
**Ffôn Symudol Staff yr Hostel** - **07596880888 / 07743939288**
**E-bost** (ymholiadau cyffredinol): **glynllifon@gllm.ac.uk**
**Rheolwr yr Hostel: Alison Owen, Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr** - alison.owen@gllm.ac.uk



# Mynegai


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 2 |
| Cyrraedd ac Ymgartrefu | Tudalen 4 |
| Casglu Allweddi | Tudalen 5 |
| Yswiriant | Tudalen 5 |
| Trwydded Teledu | Tudalen 5 |
| Rhestr Wirio | Tudalen 5 |
| Postio | Tudalen 5 |
| Pario Ceir | Tudalen 6 |
| Beiciau | Tudalen 6 |
| Ymwelwyr | Tudalen 6 |
| Goruchwyliaeth Nos | Tudalen 6 |
| Gweithdrefn Gwynion | Tudalen 7 |
| Llety a Chyfleusterau | Tudalen 7-8 |
| Cloi mewn Argyfwng | Tudalen 10 |
| Argaeledd Ystafelloedd | Tudalen 11 |
| Myfyrwyr â Chyflyrau Meddygol | Tudalen 12 |
| Cefnogaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr | Tudalen 13 |
| Gweithgareddau Hamdden | Tudalen 14-15 |
| Prydau Bwyd | Tudalen 16 |
| Ffioedd Preswyl | Tudalen 16 |
| Rheolau | Tudalen 17 |
| Polisïau Defnyddiol | Tudalen 18 |
| Ffynonellau cyngor eraill | Tudalen 18 |
| Cytundeb | Tudalen 19-22 |




# **Cyrraedd** ac **Ymgartrefu**

**Mae'r coleg wedi'i leoli o fewn waliau hen stad Glynllifon a oedd yn gartref dros y canrifoedd i deulu Newborough, hyd nes i'r coleg brynu'r safle yn 1953.**

Mae'r hostel yng Nglynllifon yn rhan o brif safle'r coleg ac mae wedi ei leoli ar ddiwedd y prif ffordd. Mae llety ar gyfer 70 o ddysgwyr yn yr hostel. Mae'r coleg wedi ei leoli tua phedair milltir o Gaernarfon, ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri a thraeth Dinas Dinlle sydd llai na dwy filltir i ffwrdd, gan wneud y coleg yn addas i'r rhai sydd wrth eu boddau gyda'r môr a'r mynyddoedd.



## Casglu Allweddi

Cewch eich cynghori yn nes at ddechrau'r tymor pryd a ble i gasglu eich allweddi.

## Rhestr Wirio

Bydd y rhestr yn cael ei rhoi i chi pan fyddwch yn cyrraedd yr hostel.

Bydd o fantais i chi wirio bob eitem. Os byddwch yn anghytuno â'r rhestr wirio mewn unrhyw ffordd, trafodwch hyn gyda staff yr hostel a fydd yn dod i'ch ystafell i wirio'r anghytundeb gyda chi. Bydd modd gwneud diwygiadau angenrheidiol cyn i chi a staff yr hostel lofnodi.

Peidiwch â symud eiddo'r hostel o eich ystafell neu'r hostel, gan y byddwch yn cael eich ystyried yn gyfrifol am unrhyw ddifrod dilynol/colled.

## Yswiriant

Nid yw'r coleg yn gyfrifol am golled/difrod i eiddo myfyrwyr ac rydym yn eich cynghori'n gryf i sicrhau polisi yswiriant personol ar gyfer achosion o ddwyn/difrod i'ch eiddo personol yn eich ystafell ac yn erbyn difrod y gallech ei achosi i eiddo'r coleg drwy esgeulustod.

## Trwydded Deledu

Mae angen trwydded deledu i wylio neu recordio rhaglenni teledu, ar unrhyw ddyfais rydych yn ei ddefnyddio (teledu, cyfrifiadur, gliniadur, ffôn symudol neu unrhyw ddyfais arall ) os nad oes gennych drwydded gallech dderbyn dirwy o hyd at £1,000.

## Postio

Gellir casglu post o'r brif dderbynfa yn ystod oriau coleg. Gwnewch yn siŵr bod eich ffrindiau a'ch teulu yn gwybod beth ydy'r cyfeiriad cywir.

Ystafell ?
Hostel Glanrafon
Coleg Glynllifon,
Ffordd Clynnog,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL54 5DU

# Parcio Ceir

Mae parcio wedi'i gyfyngu i'r maes parcio y tu allan i Glanrafon a maes parcio myfyrwyr y coleg; fel myfyriwr ni chaniateir i chi ddefnyddio eich cerbyd ar safle'r coleg.

Nid yw'r coleg yn gyfrifol am ddiogelwch cerbydau ac mae'n rhaid i fyfyrwyr gael yswiriant digonol. Mae cod ymddygiad Grŵp Llandrillo Menai yn berthnasol yn ogystal â'r rheolau a'r canllawiau a osodwyd ar waith gan gampws Glynllifon. Rhaid glynu at y rhain bob amser. Nid oes gan fyfyrwyr ganiatâd i barcio wrth brif adeilad PA@G y coleg. Mae'r safle hyn ar gyfer staff ac ymwelwyr yn unig.

# Beiciau

Ni chaniateir storio beiciau mewn ystafelloedd gwely, cynteddau na'r grisiau oherwydd eu bod yn rhwystro allanfeydd tân a gall achosi difrod. Gofynnwch i staff yr hostel am drefniadau storio.

# Goruchwyliaeth Nos

**Mae staff ar y safle i'ch goruchwylio tra byddwch yn yr hostel..**

Eu prif cyfrifoldeb yw:

- Sicrhau eich bod yn setlo.
- Sicrhau eich bod yn byw mewn amgylchedd diogel.
- Darparu cyngor cyffredinol a chefnogaeth i chi.
- Cyd-weithio gyda chi i drefnu gweithgareddau hamdden.

# Ymwelwyr

Rydym yn ymdrechu i wneud yr hostel mor groesawgar â phosibl, a sicrhau amgylchedd diogel.

Nid oes mynediad i'r rhai nad ydynt yn drigolion yr hostel. Rhaid i bob ymwelydd adrodd yn uniongyrchol i staff yr hostel.

# Gweithdrefn Gwyno

**Os oes angen cwyno am y llety yna dylech gysylltu â staff yr hostel.**

Amlinellir y broses ar gyfer gwneud cwyn yn y weithdrefn gwyno. Bydd Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr yn cwrdd â myfyrwyr preswyl bob hanner tymor i gael eich barn ar eich profiad yn yr hostel.

# Llety a Chyfleusterau

**Yn y llety ceir ystafelloedd dwbl yn bennaf, a bydd myfyrwyr o'r un rhyw yn rhannu ystafell.** Bydd rhannu ystafelloedd yn cynorthwyo dysgwyr i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd yn ystod eu harhosiad yng Nglynllifon. Mae drôr y gallwch ei gloi ar gael i gadw arian ac eiddo personol yn ddiogel.

Disgwylir i chi adael eich ystafell am 8.50 bob bore. Mi fydd hostel staff yn gwirio bod ystafelloedd yn wag rhwng 8.50am a 9.00am i wneud yn siŵr bod pawb yn holliach ar ddechrau'r diwrnod.



# Beth rydym yn ei ddarparu:

**Ystafell** **Mae pob ystafell wely yn ein llety cynnwys:**

- Desg a chadair ar gyfer bob myfyriwr
- Cabinet sydd yn cloi wrth ochr y gwely ar gyfer pob myfyriwr
- Y rhyngrwyd a phwyntiau mynediad Freeview
- Ystafell gawod ‘en-suite’
- Mae un ystafell twin wedi ei addasu ar gyfer dysgwyr ag anableddau.

---

**Cegin**

- Microdon
- Oergell gyda blwch iâ
- Tostiwr
- Tegell

---

**Beth ddylech chi ddod gyda chi**

- Ddillad digonol ar gyfer wythnos
- Duvet, gorchudd duvet, cynfasau, clustog a gorchudd clustog
- Tywelion
- Cloc larwm
- Sychwr gwallt
- Ychydig o lestri a chyllyll a ffyrc

Dylai pob eitem drydanol fod ar gyfer 220-240 folt a chydymffurfio â Safonau Diogelwch Prydeinig perthnasol. Rhaid archwilio a phrofi pob eitem (gweler t15 Rheol 14)

Mae modd i chi ddod ag eiddo personol arall i’r Coleg, ond ni fydd y Coleg yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod. Mae drôr a gellir ei gloi ar gael ar gyfer cadw arian ac eiddo personol.

Caniateir posteri gan ddefnyddio’r hysbysfwrdd a ddarperir ym mhob ystafell. Mae gosod posteri ar waliau yn debygol o achosi difrod i baent ar y waliau ac os bydd hyn yn digwydd efallai y codir bil arnoch am ailaddurno.

Bydd ystafelloedd yn cael eu gwirio bob wythnos. Pwrpas y gwiriadau yw sicrhau bod y coleg a’r trigolion yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch megis rheoliadau tân, ac yn cydymffurfio â’r amodau preswylio mewn perthynas â materion cadw tŷ cyffredinol yn yr ystafelloedd gwely a’r ystafelloedd cymunedol.

Efallai y bydd contractwyr neu ofalwyr angen mynediad i'ch ystafell o bryd i'w gilydd a hysbysir chi ymlaen llaw os bydd angen hyn. Bydd pob ystafell yn cael ei harchwilio'n rheolaidd gan staff glanhau'r hostel, fodd bynnag, cyfrifoldeb y myfyriwr yw gwneud y gwely a chadw'r ystafell yn daclus.

Efallai y byddwch eisiau dod â theledu eich hun gyda chi, fodd bynnag, mae angen i chi sicrhau bod gennych drwydded ar ei gyfer. Mae gennych hawl hefyd i ddod ag eitemau trydanol eraill cyn belled ag y byddwch yn sicrhau nad yw socedi trydan yn cael eu gorlwytho (ni chaniateir tanau trydan neu unrhyw offer a allai gychwyn y larwm mwg neu dân, mae hyn yn cynnwys tegellau, oergelloedd , estyniadau, plygiau ychwanegol, canhwyllau bach neu fawr  mewn ystafelloedd gwely).

Os ydych yn anhapus â threfniadau rhannu ystafelloedd, yna dylech fynd at staff yr hostel fel pwynt cyswllt cyntaf ac yna Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys.

Bydd staff yr hostel yn sicrhau bod pawb o dan 18 oed  yn eu hystafelloedd ddim hwyrach na 11.00pm. Gall myfyrwyr dros 18 oed fynd i'w hystafelloedd yn hwyrach, ond mae'n rhaid defnyddio'r ardal gymunedol agosaf i'w hystafell wely ar ôl 11.00pm. Mae staff yr hostel hefyd yn cadw llygad ar yr adeilad er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson anawdurdodedig yn cael mynediad i'r safle. Nid yw gormod o sŵn yn dderbyniol ar unrhyw adeg, ond yn arbennig ar ôl 11.00 pan fydd preswylwyr eraill yn ceisio cysgu.

Mae angen i holl drigolion yr Hostel ddychwelyd i'r Hostel erbyn 10:30pm.

Nid yw Grŵp Llandrillo Menai yn caniatáu meddiant neu ddefnydd o unrhyw sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys alcohol, rydym hefyd yn gwahardd ysmygu/fepio unrhyw sylwedd o fewn adeiladau'r coleg.

Bydd unrhyw fyfyriwr wedi ei ddal gydag alcohol neu sylweddau anghyfreithlon yn yr hostel yn cael ei ddisgyblu. Bydd y coleg hefyd yn cysylltu gyda rhieni/gwarchodwyr a gofynnir i gasglu eu mab/merch.

Ni chaniateir anifeiliaid anwes yn yr hostel.

# Gweithdrefnau Gwacáu a Chloi mewn Argyfwng

## Gwacáu

**Caiff adeilad ei wacáu pan fo'r perygl y tu mewn i'r adeilad, er enghraifft tân neu ddifrod strwythurol.**

Dylai'r holl fyfyrwyr fynd i'r man ymgynnull neu'r lleoliad a gyhoeddwyd. Dylai myfyrwyr fynd â'r hyn sydd yn eu meddiant ar y pryd yn unig gyda nhw a dilyn y cyfarwyddiadau. Ni ddylai myfyrwyr adael y man ymgynnull nes bod aelod o staff wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os bydd tân, mae gan bob myfyriwr gyfrifoldeb i osgoi risg tân a rhaid iddynt gymryd sylw o'r holl gyngor a roddir, yn ysgrifenedig neu ar lafar, gan y swyddogion tân a staff y llety. Os bydd tân, ewch allan o'r adeilad, gwnewch yn siŵr bod y drysau tân ar gau a seiniwch y larwm tân, os nad yw eisoes wedi'i ganu gan y synhwyrydd mwg/gwres. Arhoswch y tu allan i'r adeilad am gyfarwyddiadau gan staff yr hostel. Caiff y llwybrau gwacáu cywir a'r mannau ymgynnull tân eu dangos i'r myfyrwyr fel rhan o'r Broses Gynefino. Mae methu â gadael yr adeilad yn achos difrifol o dorri eich amodau preswyl a bydd yn arwain at weithdrefnau disgyblu.

## Cloi mewn Argyfwng

**Mewn achos o gloi mewn argyfwng, ni chaiff unrhyw un adael yr adeilad na dod i mewn.**

Rhoddir gweithdrefnau cloi mewn argyfwng ar waith pan fo perygl sylweddol i ddiogelwch. Mae sefyllfaoedd o'r fath yn hynod o brin. Dylai myfyrwyr gloi'r drysau, diffodd y golau ac aros yn dawel ac allan o'r golwg. Dylai myfyrwyr symud i'r ystafell agosaf y gellir ei chloi ar unwaith a thawelu eu ffonau symudol.

# Cloi allan mewn Argyfwng

**Mewn achos o gloi allan mewn argyfwng, ni chaiff unrhyw un ddod i mewn i'r adeilad.**

Rhoddir y gweithdrefnau hyn ar waith pan fydd gollyngiad cemegol neu aflonyddwch sifil. Yn ystod achos o gloi allan, dylai pawb fynd i mewn i adeilad arall a fydd yn cael ei gloi. Bydd staff yn gyfrifol am gloi pob drws.

# Mynediad i'r Ystafelloedd

Mae'r ystafelloedd ar gael o 4pm ar nos Lun. Bydd modd gadael bagiau mewn safle diogel yn y bore. Bydd yr ystafelloedd yn cau am 3pm dydd Gwener. Nid yw dysgwyr yn cael aros yn yr hostel yn ystod y dydd, dylent fynychu eu gweithgareddau cwrs. Os yw dysgwr yn sâl mae angen iddynt roi gwybod yn y brif dderbynfa cyn gynted ag y bo modd. Gallwch adael eich pethau yn yr ystafell dros y penwythnos ond ar adegau prin, gall y coleg ofyn i chi wagio eich ystafell e.e. yn ystod y cyfnod profiad gwaith, neu ar ddiwedd y tymor a chyfnodau gwyliau.

Dylai'r coleg dderbyn o leiaf 24 awr o rybudd gan breswylwyr o'u bwriad i gadw draw dros nos. Rhaid rhoi gwybod i'r cyfeiriad e-bost **glynllifon@gllm.ac.uk** a staff yr hostel am bob absenoldeb. Bydd angen caniatâd rhieni ar bob myfyriwr o dan 18 oed ar, neu ar ôl 1 Medi, i adael yr hostel.

Gan fod argyfyngau'n digwydd, mae'n hanfodol y gellir cysylltu â chi. Os byddwch yn newid eich manylion cyswllt, cyfeiriad cartref, rhif ffôn symudol, rhowch y manylion newydd hyn i staff y dderbynfa a hostel Glynllifon.

# Myfyrwyr â Chyflyrau Meddygol

**Mae’n bwysig eich bod chi’n hysbysu o unrhyw gyflyrau meddygol neu feddyginiaeth rydych chi’n eu cymryd yn rheolaidd.**

Mae Holiadur Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi’i amgáu yn y pecyn. Bydd yr holiadur yn cael ei rannu â’n tîm ADY a fydd o bosib yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth.

Cedwir y manylion hyn mewn man diogel a bydd gan staff yr hostel fynediad ar yr wybodaeth hefyd. Byddwn yn

defnyddio’r ffurflen hon i gysylltu â rhieni/ gwarcheidwaid os bydd angen unrhyw sylw meddygol arnoch mewn argyfwng. Os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn neu heb bresgripsiwn, rhaid rhoi gwybod i staff yr hostel.

# Myfyrwyr sy’n Sâl

**Nid oes gennych hawl i aros yn eich ystafell hostel yn ystod y dydd coleg os ydych yn sâl.**

Os byddwch yn sâl mae’n rhaid i chi fynd i’r brif dderbynfa a bydd ystafell dawel yno wedi ei dynodi i chi. Os ydych yn sâl ar fore dydd Llun ac yn methu dychwelyd i’r coleg, dylech roi gwybod i’r coleg. Os oes rhaid i chi ddychwelyd adref oherwydd eich bod yn sâl, yna rydym yn disgwyl i’r rhiant/gwarcheidwad wneud y trefniadau angenrheidiol, yn cynnwys rhoi gwybod i’r coleg.

Caiff myfyrwyr sy’n sâl eu cyfeirio at y feddygfa ym Mhenygroes a/ neu Nyrs y Coleg.

# Cefnogaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr

**Mae gan y coleg ddarpariaeth i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau yng Nglynllifon.**

Mae'r rhain yn berthnasol i'r myfyrwyr preswyl:

**Cymorth ariannol**: os yw rhieni/gwarcheidwaid ar incwm isel mae cymorth ar gael. Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy ymweld â thudalen "cymorth ariannol a chyllid" ar ein gwefan:

gllm.ac.uk/student-hub/financial-support

Neu drwy gysylltu â chynghorydd ar: **01248 370125 est. 8535**

**Cefnogaeth i ddysgwr** - yn cynnwys cefnogaeth dysgu, cefnogaeth gwrth-fwlio a gwasanaeth cwnsela. Os ydych yn cael unrhyw broblemau personol ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi, wedi dioddef achosion o aflonyddu neu fwlio neu angen cymorth i astudio, gallwch drafod y rhain yn gwbl gyfrinachol gyda staff y Coleg. Cewch fynediad at y gefnogaeth drwy anfon neges e-bost at staysafe@gllm.ac.uk neu drwy fynd i adran Gwasanaethau i Ddysgwyr ar gampws Glynllifon.

**gllm.ac.uk/student-hub/student-support**

**Gwasanaeth cwnsela proffesiynol** - Os ydych yn profi unrhyw broblemau personol sy'n anodd ichi ymdopi â nhw, efallai yr hoffech eu trafod gyda chynghorydd proffesiynol sydd wedi'i gyflogi gan y coleg i drafod y materion hyn yn gyfrinachol.

- Mae staff Glanrafon yn defnyddio gwasanaethau proffesiynol eraill o bryd i'w gilydd pan fo hynny'n berthnasol, e.e. gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a deintyddion.

- Mae staff Glanrafon ar gael i ddatrys problemau yr ydych yn eu profi yn yr hostel, o adrodd am ddifrod i ddatrys achosion o fwlio drwy lunio cynlluniau i ddelio â'r mater yn gadarnhaol.

# Gweithgareddau Hamdden

**Mae eich amser yn y coleg yn gyfle i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd trwy ystod o weithgareddau.**

**Efallai hoffech chi:**

- Wrando ar gerddoriaeth, wylio teledu neu chwarae gemau cyfrifiadur yn eich ystafell
- Gwylio teledu neu DVD yn yr ystafell gyffredin
- Sgwrsio dros baned yn y ceginau cymunedol
- Chwarae dartiau neu pŵl yn yr ystafell gyffredin
- Chwarae rygbi neu bêl-droed 5 bob ochr
- Mynd am dro yn y parc
- Defnyddio'r ystafell ffitrwydd newydd
- Gweithgareddau coginio a chrefft

**Yn y gorffennol, mae nifer o weithgareddau wedi cael eu trefnu yn cynnwys:**

- Gemau pêl-droed a rygbi yn erbyn ysgolion a cholegau eraill
- Cyfleoedd rheolaidd i fynd i'r sinema
- Saethu colomennod clai o dan gyfarwyddyd
- Ymweliad â'r ganolfan hwyl ac atyniadau lleol eraill
- Ymweliadau â chanolfannau hamdden lleol
- Bowlio Deg
- Saethu peli paent
- Go-cartio



# Gweithgareddau Hamdden
...parhad

**Gall rhai gweithgareddau gynnwys costau ychwanegol. Os ydych yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon bydd angen i chi ddod a'ch gwisg nofio eich hun neu cit pêl-droed.**

Gofynnwn i rieni/gwarcheidwaid myfyrwyr dan 18 oed lofnodi ein ffurflen ganiatâd i fyfyrwyr adael y safle ar gyfer ymweliadau gyda'r nos. Ein nod yw sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch myfyrwyr o ganlyniad i weithgareddau'r coleg yn cael eu rheoli'n briodol.








# Prydau Bwyd

Mae prydau bwyd yn cael eu darparu yn y gegin

**Brecwast**
Wedi'i weini rhwng **8:00-8:45**

**Pryd gyda'r nos**
Yn cael ei weini am **5.15pm**. O bryd i'w gilydd bydd yr amseroedd yn newid a bydd amseroedd bwyd newydd yn cael ei nodi'n glir ar hysbysfyrddau.

Dylai myfyrwyr ag anghenion dietegol nodi hynny'n glir wrth gofrestru a thrafod hyn gyda staff yr hostel yn ystod y cyfnod cynefino.

# Ffioedd Preswyl

**Amgaeir copi o'r ffioedd preswyl presennol.**

Mae ffioedd yn daladwy naill ai mewn un taliad llawn ar ddechrau'r flwyddyn neu mewn tri rhandaliad cyn pob tymor. Disgwylir i fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn lenwi ffurflen i gytuno i dalu'r ffi berthnasol ac i gadw at reolau preswyl y coleg. Rhaid talu ffioedd yn llawn hyd yn oed pan fydd myfyrwyr allan ar brofiad gwaith.

Os ydych yn dymuno cadw lle yn yr hostel yna dylech lenwi ffurflen A a'i hanfon i'r coleg erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno ynghyd â ffi cadw o £100. Caiff y ffi cadw hon ei didynnu o daliad llawn eich taliad terfynol. Ni ellir gwarantu ystafelloedd heb y ffi cadw hon o £100 er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch cynorthwyo. Os ydych yn cadw ystafell ac yna'n penderfynu nad ydych yn dymuno byw yn y coleg, yna mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r coleg ar unwaith.

O bryd i'w gilydd mae difrod yn digwydd ar eiddo'r coleg ac rydym yn gofyn am flaendal difrod o £250. Telir hyn gyda ffioedd y neuadd ar ddechrau'r flwyddyn addysgol. Bydd y blaendal hwn yn cael ei ad-dalu i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dibynnu ar faint o ddifrod sydd wedi'i achosi.

Os gofynnir i fyfyriwr adael yr hostel a/neu'r Coleg oherwydd rhesymau disgyblu, bydd disgwyl i chi dalu eich ffioedd hostel tan ddiwedd y flwyddyn academaidd.

**Gofynnwn am £10 o flaendal ar gyfer pob un o'r canlynol (cyfanswm cost o £30):**

- Allwedd ystafell
- Ffob
- Allwedd cwpwrdd diogel

Bydd eich blaendal yn cael ei ddychwelyd pan fyddwch yn dychwelyd yr allweddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Os yw rhieni ar incwm isel, yna efallai y bydd grantiau ar gael i helpu gyda ffioedd yr hostel. Cysylltwch â'r adran Gwasanaethau i Ddysgwyr yn y coleg am ragor o wybodaeth.

# Addunedy Myfyriwr

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y rheolau hyn gan y byddant ar waith. Drwy lofnodi i dderbyn lle yn hostel y coleg, rydych yn cytuno i gadw at y rheolau/rheoliadau a amlinellir yn y ddogfen hon, y cytundeb preswyl a materion ariannol. Gallai methu â chadw at y rheolau hyn arwain at ofyn i chi adael y coleg.

**1. Ymddygiad** - Rhaid i fyfyrwyr ymddwyn mewn modd rhesymol bob amser.

**2. Disgwylir i'r myfyrwyr** adael eu hystafelloedd am 8.50am.

**3. Oddi ar ymweliadau safle** – Os bydd myfyrwyr yn gadael y safle, mae'n rhaid hysbysu staff yr hostel, ac os ydynt o dan 18 oed, rhaid cael caniatâd rhiant/gwarcheidwad.

**4. Difrod** – Rhaid adrodd unrhyw ddifrod ar unwaith i staff yr hostel. Os bydd myfyriwr yn ei gael yn euog o achosi difrod bwriadol, yna dilynir y polisi disgyblu a bydd disgwyl i'r myfyriwr dalu yn llawn am y difrod ac mi fydd mewn perygl o golli ei le yn y coleg. Os nad oes modd canfod yr un sydd yn gyfrifol am y difrod, yna bydd yr holl fyfyrwyr yn gyfrifol am rannu'r gost.

**5. Dillad gwaith** – Dylai myfyrwyr adael dillad gwaith yn y loceri priodol.

**6. Ystafelloedd gwely** – Disgwylir i fyfyrwyr gadw eu hystafelloedd yn daclus bob amser.

**7. Ysmygu/Fepio** – Gwaherddir ysmygu/fepio ym mhob adeilad o fewn y Coleg.

**8. Dychwelyd i'r ystafell wely** – Dylai pob myfyriwr o dan 18 fod yn ei hystafelloedd ddim hwyrach na 11pm. Gall y rhai dros 18 fynd i'w hystafelloedd yn hwyrach, ond mae'n rhaid defnyddio'r ardal gymunedol agosaf at eich ystafell wely ar ôl 11pm.

**9. Mynediad i ystafelloedd** – Bydd glanhawyr angen mynediad i'r ystafelloedd ar ôl 9.15am. Efallai y bydd staff yr hostel a Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr yn archwilio'r ystafelloedd os ydynt o'r farn bod gan fyfyriwr sylweddau anghyfreithlon neu alcohol yn eu hystafelloedd.

**10. Alcohol a Sylweddau anghyfreithlon** – Nid yw Grŵp Llandrillo Menai yn goddef meddiant neu ddefnydd o unrhyw sylweddau anghyfreithlon, (ac alcohol) yn y neuaddau. Gweler Polisi Disgyblu'r Coleg.

**11. Ymwelwyr** – Gall myfyrwyr wahodd ffrindiau a theulu i'r hostel gyda chaniatâd staff yr hostel, fodd bynnag, rhaid i ymwelwyr adael cyn 10.30pm

**12. Cerbydau** – Rhaid i chi gael caniatâd i barcio car/ beic modur dros nos a bydd rhaid dilyn rheolau sy'n ymwneud â'r cerbydau hyn.

**13. Gwresogyddion** – Ni chaniateir gwresogyddion ychwanegol yn yr ystafelloedd gwely.

**14. Offer Trydanol** - Bydd pob eitem o offer trydanol personol yn cael ei brofi gan y coleg i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac os canfyddir ei fod yn ddiffygiol gellir ei dynnu oddi yno i atal defnydd ohono. Ni ddylai redeg ceblau o dan fatiau na charpedi a dylid datgysylltu unrhyw chyfarpar trydanol pan na ddefnyddir hwy. Os yw myfyriwr yn gyfrifol am orlwytho socedi neu am gyfarpar diffygiol efallai y bydd gofyn i chi dalu am drwsio'r nam.

**15. Gadael y Safle** – Os yw myfyriwr yn dymuno gadael y safle yn ystod y nos, rhaid cael caniatâd staff yr hostel.

**16. Diwedd flwyddyn** – Rhaid i bob myfyriwr fynychu cyfweliad gyda staff yr hostel cyn gadael yr hostel am y tro olaf.

**17. Cynefino** – Rhaid i fyfyrwyr fynychu sesiynau cynefino a drefnwyd ar gyfer myfyrwyr preswyl.

**18. Mynediad / Diogelwch Adeiladau** – Mae'r holl breswylwyr yn gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad ac ni ddylent ganiatáu i bobl nad ydynt yn breswylwyr fynd i mewn i'r bloc llety na defnyddio pwyntiau mynediad heb eu hawdurdodi.

**19. Atal mynediad diawdurdod** – Ni ddylai preswylwyr fynd i mewn i unrhyw adeilad yng Nglynllifon ac eithrio Glanrafon y tu allan i oriau'r coleg heb ganiatâd ymlaen llaw. Ni ddylai preswylwyr fynd i mewn i blasty Glynllifon nac i adeilad arall cyfagos yng Nglynllifon.

## Polisïau Defnyddiol

Mae'r polisïau perthnasol ar gael o lyfrgell y coleg neu ar y wefan GLlM. I gael mynediad llawn i'r holl bolisïau dysgwyr, defnyddiwch y ddolen ganlynol:

gllm.ac.uk/our-policies

## Ffynonellau cyngor eraill

Os ydych yn ansicr, yna lle da i ddechrau eich gwaith ymchwil yw:

Gwefan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr:
www.nus.org.uk

Mae Cod Ymarfer Canllaw UUK i fyfyrwyr ar gael ar:
www.accommodationcode.ac.uk/









Glynllifon

YOUR RIGHT TO A QUALITY HOME
THE ACCOMMODATION CODE STUDENT

Universities UK

# Cytundeb preswylio a materion ariannol
## Neuadd Breswyl Glynllifon

Atodiad i 'Llawlyfr Hostel Glanrafon'

**1.** Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd lawn, rhaid i fyfyrwyr dalu'r ffioedd am holl gyfnod y cytundeb.

**2.** Dim ond myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs yng Nglynllifon fydd yn cael lle yn y neuadd breswyl. Bydd y cytundeb hwn yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

**3.** Gellir gwneud un taliad ar gyfer holl gyfnod y cytundeb cyn dechrau cyfnod y cytundeb, neu dri thaliad, un cyn dechrau bob tymor. Gallwch hefyd ymholi parthed sefydlu Debyd Uniongyrchol i wneud taliadau misol trwy gydol y flwyddyn.

**4.** Ni chaiff myfyriwr sydd heb dalu dyled flaenorol i'r coleg neu/ac sydd heb dalu ffi'r tymor cyntaf, le yn y neuadd breswyl.

**5.** Am gyngor a gwybodaeth ynghylch cymorth ariannol posib dylid cysylltu â'r Swyddog Gwasanaethau i Ddysgwyr ar: **01286 830 261**

Os oes unrhyw un am drafod neu angen cymorth gyda cheisiadau grant, dylid trefnu apwyntiadau drwy brif swyddfa Glynllifon **01286 830 261**

**6.** Dim ond os bydd y Swyddog Gwasanaethau i Ddysgwyr wedi ei argyhoeddi y bydd y myfyriwr yn derbyn grant y caniateir iddo/iddi aros yn y neuadd breswyl heb dalu ffi'r tymor cyntaf o flaen llaw.

**7.** Os bydd myfyriwr yn dymuno terfynu'r Cytundeb Preswylio, rhaid iddo/iddi roi gwybod ar ddu a gwyn i Gyfarwyddwr Gwasanaethau i Ddysgwyr, a thalu ffi un tymor. Mae rhybudd un tymor yn golygu talu am dymor cyfan, NID tal weddill tymor. Er enghraifft, os rhoddir rhybudd yn ystod pumed wythnos y tymor cyntaf, bydd angen talu hyd at bumed wythnos yr ail dymor.

**8.** Os terfynir Cytundeb Preswylio am unrhyw reswm yn cynnwys torri rheolau'r Coleg, ni roddir ad-daliad na gostyngiad a bydd yr un amodau ac adran 7 uchod ar waith.

**9.** Os na thelir ffioedd preswyl tymhorau 2 a 3 cyn dechrau'r tymhorau hyn neu heb drefniant taliadau amgen yn ei lle, bydd y Coleg yn cymryd camau i hawlio'r arian. Gall y Coleg ddod â'r cytundeb i ben os na dalir y ffioedd ar amser.

**10.** Rhaid i fyfyrwyr dalu unrhyw gostau rhesymol y bydd gofyn i'r Coleg eu talu os bydd yn rhaid i'r Coleg gymryd camau i sicrhau bod y myfyriwr yn cyflawni ymrwymiadau'r cytundeb hwn, yn ogystal â £20 o dâl gweinyddol.

**11.** Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cytundeb hwn y daeth y ddau barti i gytundeb arnynt fod yn ysgrifenedig.

**12.** Bydd y Coleg yn darparu'r canlynol o'r ffioedd hostel:

- Ystafell wely astudio ar gyfer dau berson; gyda dodrefn.
- Goleuadau, gwres a thrydan.
- Mynediad i'r rhyngrwyd.
- Dŵr poeth ac oer.
- Staff Hostel
- Gwasanaeth glanhau ystafelloedd yn rheolaidd.
- Gofod cegin i'w rannu
- Brecwast ysgafn o ddydd Llun i ddydd Gwener a phryd gyda'r nos - o ddydd Llun i ddydd Iau (ac eithrio Gwyliau Banc).

** Rhaid i fyfyrwyr ddod â'u duvet, clustog a dillad gwely eu hunain. (Bydd rhai ar gael mewn argyfwng yn unig.)

**13.** Bydd 'Ffurflen Cynnwys a Chyflwr Ystafell' ym mhob ystafell i bob myfyriwr ar ddechrau'r cytundeb preswylio. Rhaid nodi ar unwaith ar y ffurflen hon unrhyw eitemau sydd ar goll neu wedi eu difrodi neu os oes unrhyw ddifrod i'r ystafell. Ar ddiwedd pob tymor, bydd y Coleg yn archwilio'r ystafell a'r eitemau sydd ynddi. Bydd datganiad yn cael ei anfon i gartref pob myfyriwr ar ddiwedd pob tymor yn nodi unrhyw ddifrod i'r ystafell ac yn datgan y swm o flaendal difrod sydd yn weddill. Gofynnir am flaendal ystafell £250, a bydd y swm hwn yn cael ei dynnu o daliad olaf yr hostel

**14.** Bydd gofyn i fyfyrwyr fod yn ystyriol o'i gilydd. Ni ddylai unrhyw sŵn fod yn ddigon uchel i'w glywed tu allan i'ch ystafell neu'r gegin, yr ystafell ymolchi neu'r ystafell gyffredin. Ystyrir lefelau sŵn annerbyniol yn aflonyddu difrifol, a gall arwain at ddisgyblu a therfynu'r Cytundeb Preswylio.

**15.** Bydd gofyn i fyfyrwyr ddod yn gyfarwydd â pholisi Iechyd a Diogelwch y Coleg. Bydd peidio â chydymffurfio a'r polisi'n cael ei ystyried yn fater difrifol, a gallai arwain at ddiddymu'r Cytundeb Preswylio ac at ddisgyblu.

**16.** Bydd ymyrryd ag offer ac arwyddion canfod neu atal tân yn enghraifft ddifrifol o dorri'r Cytundeb Preswylio a'r Polisi Iechyd a Diogelwch. Caiff unrhyw fyfyriwr a fydd yn gyfrifol am wneud y fath beth ei ddisgyblu gan y Coleg, bydd y Cytundeb Preswylio yn cael ei ddiddymu, a rhoddir gwybod i'r heddlu am y mater os ystyrir bod y weithred a gyflawnwyd yn drosedd.

**a)** Bydd gofyn i'r myfyrwyr sy'n gyfrifol dalu am drwsio ac ailosod offer o'r fath, a thalu am gost ymateb i alwad ffug. Os na wyddid pwy a oedd yn gyfrifol, bydd yn rhaid i fyfyrwyr dalu'r costau'n unol a pharagraff 21 isod.

**b)** Ni ddylai myfyrwyr wneud dim a allai gynyddu'r posibilrwydd o dân neu leihau effeithiolrwydd y camau atal tân. Mae hyn yn cynnwys peidio â chael eich dodrefn eich hun yn eich ystafell, peidio â gadael drysau ar agor, a pheidio â blocio llwybrau dianc tân.

**c)** Ni chaniateir canhwyllau nac offer fflamadwy yn yr hostel.

**17.** Ni ddylid dod ag arfau nac arfau ffug ar y campws, hyd yn oed os oes gan y myfyriwr drwydded ddilys.

**18.** Mae'r adran hon yn ychwanegol at Reol 13, Rheol 14 yn y llyfryn " Llawlyfr Hostel Glanrafon".

**a)** Archwilir offer trydanol a chysylltiadau mewn ystafelloedd o dro i dro i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel. Rhoddir rhybudd o archwiliadau o'r fath ar hysbysfwrdd y prif safle. Bydd unrhyw offer trydan neu gysylltiadau peryglus yn cael eu symud o'r ystafell ar unwaith, a rhoddir derbynneb i'r myfyriwr. Dychwelir yr eitem(au) dan sylw ar ddiwedd y Cytundeb Preswylio.

**b)** Er mwyn peidio â gorlwytho system weirio'r neuadd breswyl, ni chaniateir offer trydan sy'n cynnwys elfen wresogi, neu sy'n defnyddio llawer o ynni yn yr ystafell wely/astudio. Mae tegell, tostiwr, microdon, oergell, chwythwr gwres, gwresogydd, offer grilio, tostiwr brechdanau a ffrïwyr aer, yn enghreifftiau o offer o'r fath. Ni fwriadwyd i'r rhestr hon fod yn gyflawn.

**c)** Gall myfyrwyr ddod ag offer trydan isel eu pŵer i'r neuadd breswyl, e.e. teledu, cyfrifiadur, sychwr gwallt, system gerddoriaeth gludadwy a radio. Yn ystod dyddiau cyntaf y tymor, bydd y Coleg yn darparu gwasanaeth PAT i brofi'r offer hyn. Ni ddyled defnyddio'r eitemau hyn nes iddynt gael eu profi.

**d)** Ni ddyled cysylltu mwy na thair eitem isel eu pŵer o restr 18c uchod i floc aml-soced. Os cysylltir mwy na hynny, fe'i symudir o'r ystafell fel y nodir yn 18a isod.

**e)** Ni ddylid defnyddio addasydd socedi.

**f)** Mi fydd cegin ar gael hefo oergell, tegell, microdon, bydd angen ichi ddarparu eich llestri eich hun.

**19.** Mae'r adran hon yn ychwanegol at reol 8 y llyfryn "Llawlyfr Hostel Glanrafon".

**a)** Mewn perthynas â myfyrwyr dan 18 oed, mae dyletswyddau a chyfrifoldebau staff yr hostel yn cynnwys cadw golwg ar ystafelloedd a'r myfyrwyr sydd ynddynt a sicrhau bod y myfyriwr yn eu hystafelloedd am 11.00pm

**b)** Dyletswyddau a chyfrifoldebau staff yr hostel mewn perthynas â myfyrwyr dros 18 yw gwirio os ydynt yn eu hystafelloedd am 11.00pm bob nos o nos Lun i nos Iau, er mwyn cydymffurfio a'r rheolau tân.

**c)** Bydd angen cael mynediad i ystafelloedd i drwsio a gwneud gwaith cynnal a chadw.

**d)** Bydd staff yn ymweld ag ystafelloedd cyn lleied â phosib, oni fydd ganddynt reswm i gredu bod amodau'r Cytundeb Preswylio'n cael eu torri.

**e)** Bydd staff yr hostel yn gwirio ystafelloedd bob wythnos, i wneud yn siŵr eu bod yn daclus.

**f)** Ni chaniateir mynediad i'r hostel rhwng 9.00am a 4.30pm.

**g)** Mi fydd y system diogelwch yn golygu defnydd goriad "ffob". Mi fydd y rhain ar gael yn ystod y cyfnod cofrestru. Dim ond myfyrwyr preswyl fydd â chaniatâd i fynd i mewn i'r hostel.

**h)** Mae camerâu  diogelwch wedi eu lleoli yn y mannau cyffredin a gall staff yr hostel ddefnyddio camerâu corff.

**i)** Mae gofyn i fyfyrwyr wneud yn siŵr fod ganddynt yswiriant cynnwys eu hunain..

**j)** Ni fydd y coleg yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod i eiddo myfyrwyr.

**k)** Bydd angen i'r myfyriwr lofnodi allan bob tro y byddant yn gadael yr hostel ac yn llofnodi i mewn wrth ddychwelyd i'r hostel. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at gamau disgyblu..

**20.** Mae'r adran hon yn ychwanegol at Reol 5 yn llyfryn "Llawlyfr Hostel Glanrafon".

**a)** Ni ellir gosod yr ystafell i rywun arall na throsglwyddo'r cytundeb i fyfyriwr arall.

**b)** Unwaith y pennir ystafell ar gyfer myfyriwr, fe'i rheolir gan y Cytundeb Preswylio. Rhaid i unrhyw newid ystafell ddigwydd gyda chytundeb staff yr hostel a rheolwyr yr hostel. Ni chaiff neb newid ystafell heb ganiatâd Y Pennaeth Cynorthwyol.

**c)** Dim ond fel ystafell wely/astudio y gellir defnyddio'r ystafell. Ni ddyled ei defnyddio mewn unrhyw fodd i redeg busnes.

**d)** Mae'r Coleg yn cyflogi glanhawyr er mwyn gwneud y gwaith glanhau dyddiol, arferol yn unig. Os gwneir llanast, bydd disgwyl i'r myfyriwr/myfyrwyr sy'n gyfrifol ei lanhau. Os na wneir hynny bydd y  Coleg yn gofyn i'r rhai sydd yn yr ystafell dalu am ei lanhau,  yn ogystal â thalu £20 am y gwaith gweinyddu.

**e)** Dim ond ar yr hysbysfyrddau a ddarperir ym mhob ystafell y gall myfyrwyr osod poster, rhybuddion, baneri, amserlenni ac ati.

**f)** Ni chaiff myfyrwyr dod â'u dodrefn eu hunain.

**g)** Rhaid i'r myfyrwyr gloi eu hystafelloedd pan na fyddent ynddynt.

**21.** Mae gofyn cadw'r mannau mae pawb yn ei ddefnyddio (coridorau, ystafelloedd cymdeithasu, y gegin ac ati) yn lan a thaclus. Cânt  eu glanhau gan staff y Coleg yn unol â pharagraff 20d uchod. Ar ôl defnyddio'r gegin, disgwylir i fyfyrwyr preswyl lanhau unrhyw lanast a wnaed, a thacluso ar eu holau. Os na wneir hyn, mae gan y Coleg yr hawl i dalu i lanhawyr glirio'r llanast, a bydd yn rhaid i'r rhai sy'n lletya yn yr ystafelloedd cyfagos dalu am y glanhau, yn ogystal â thalu £20 am y gwaith gweinyddu.

**22.** Rhaid rhoi gwybod i staff yr hostel am unrhyw ddifrod. Fe'i cofnodir ar ffurflen cofnodi difrod.

**a)**  Bydd y Coleg yn codi tâl rhesymol ar fyfyrwyr am drwsio neu brynu eitem yn lle'r un a ddifrodwyd, a gall gynnwys tâl gweinyddu o £20. Fel rheol, bydd y Coleg yn rhoi bil i'r myfyriwr ei hun, yn hytrach na thynnu'r swm o'r blaendal ar gyfer difrod. Os bydd difrod yn fwriadol neu'n ganlyniad diofalwch gall y Coleg ddefnyddio'r drefn ddisgyblu, neu hyd yn oed dod â'r Cytundeb Preswylio i ben.

**b)** Os nad oes modd gwybod pwy oedd yn gyfrifol, bydd yn rhaid i'r rhai sy'n lletya yn yr ystafelloedd cyfagos dalu, a thynnir y gost o'r Blaendal ar gyfer Difrod.

**c)** £250 yw'r blaendal ar gyfer difrod. Os bydd gwerth y difrod yn fwy na £250, codi'r tâl ar y myfyriwr am y gwahaniaeth.

**23.** Mae'r adran hon yn ychwanegol at Reol 10 yn y llyfryn "Llawlyfr Hostel Glanrafon".

**a)** Mae myfyrwyr yn gyfrifol am eu hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir ganddynt.

**24.** Bydd gan bob myfyriwr allwedd ystafell, ffob ac mae modd iddynt gael locer diogel yn eu hystafell.

**a)** Rhaid talu blaendal o £10 am allwedd drws yr ystafell, £10 am y goriad "ffob" a blaendal o £10 am allwedd cwpwrdd diogel.

**b)** Ar ddiwedd cyfnod y Cytundeb Preswylio, rhaid dychwelyd yr allweddi a chael eich blaendal yn ôl. Os na roi'r allweddi'n ôl cyn pen wythnos, bydd yn rhaid i'r myfyrwyr dalu am newid clo.

**c)** Rhaid i chi gadw eich goriad "ffob" eich hunain a dim rhannu hefo neb arall. Dylech roi gwybod i staff yr hostel os byddwch yn ei golli.

**25.** Mae'r adran hon yn ychwanegol i'r hyn a geir yn llyfryn "Llawlyfr Hostel Glanrafon".

**a)** RRhaid i fyfyrwyr symud eu holl eiddo o'u hystafelloedd ar ddiwedd pob tymor a chyn pob gwyliau hanner tymor os na hysbysir yn wahanol gan staff yr hostel.

**b)** Dylid gadael yr ystafell yn lân a thaclus, gan dynnu posteri ac ati oddi ar yr hysbysfwrdd.

**c)** Bydd y Coleg yn symud o'r ystafell unrhyw eiddo a gadwyd ynddi. Ceir gwared ag eitemau darfodus ar unwaith. Cedwir eitemau eraill am wythnos, ac yna bydd y Coleg yn cael gwared â hwy fel y gwêl yn dda.

**d)** Os bydd cost i gael gwared ag eitem, bydd y Coleg yn anfon anfoneb at y myfyriwr dan sylw, gan gynnwys tâl gweinyddu o £20.

**e)** Mae posibilrwydd y bydd yr ystafelloedd preswyl yn cael eu defnyddio ar gyfer cyrsiau blasu yn ystod cyfnodau pan nad oes myfyrwyr yn preswylio. Bydd staff yr hostel yn gwirio am ddifrod cyn ac ar ôl y cyfnodau hyn er mwyn sicrhau na fydd bai yn cael ei roi ar gam am ddifrod. Os fydd gennych unrhyw bryderon ynglŷn â difrod yn ystod y cyfnodau hyn, rhowch wybod i staff yr hostel ar unwaith.

**26.** Os torrir amodau'r Cytundeb hwn, gall y Coleg derfynu'r Cytundeb ac/neu roi trefn ddisgyblu'r Coleg ar waith.

**Llofnod y dysgwr** ______________________________ **Dyddiad** ________________

Llofnod y rhiant neu warchodwr ble mae'r myfyriwr o dan 18 oed ar y 1af o Fedi.

__________________________________________________ **Dyddiad** _______________

Un copi yn ôl i'r Coleg, un i'w gadw.

Grŵp Llandrillo Menai

THE STUDENT ACCOMMODATION CODE